crynodeb gwyddoniaeth

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

www.environment-agency.gov.uk

SCHO0906BLMB-B-P

Gweithdy rhyngwladol ynghylch bio-erosolau o gompostio gwastraff gwyrdd

Crynodeb Gwyddoniaeth SC050009/110

Ar 28 Chwefror 2006 cynhaliodd Asiantaeth yr Amgylchedd weithdy i wahoddedigion er mwyn asesu'r peryglon i iechyd o fio-erosolau sy'n gysylltiedig â chompostio gwastraff gwyrdd. Roedd y gweithdy'n rhan o'n rhaglen waith er mwyn datblygu ein gofynion yng nghyswllt bio-erosolau, a'u heffeithiau potensial ar iechyd ac asesiadau risg.

Roedd nodau'r gweithdy'n cynnwys rhoi gwybodaeth i gynrychiolwyr ynghylch sut mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn mynd i'r afael â'r pynciau sy'n ymwneud â bio-erosolau o gompostio gwastraff gwyrdd ac i dynnu eu sylw i beth o'r ymchwil a noddir ar hyn o bryd gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn y maes hwn. Roedd y rhai presennol yn cynnwys rheolyddion y DU, academyddion, gweithwyr y diwydiant compostio a chontractwyr asesu risg.

Clywodd y gynulleidfa gyflwyniadau gweithdy a oeddent yn disgrifio:

- yr heriau a wynebir gan y DU er mwyn cwrdd â'i rhwymedigaethau o dan Gyfarwyddeb Tirlenwi'r Undeb Ewropeaidd
- sut mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn newid ei dull o reoli ceisiadau am drwyddedau o ddiwydiant
- safbwynt y diwydiant compostio ynghylch yr heriau a wynebir ganddo
- ymchwil yn yr Almaen a'r Iseldiroedd ynghylch effeithiau bio-erosolau ar iechyd
- bylchau cyfredol yn y maes hwn o ran gwyddoniaeth a gwybodaeth
- modelu bio-erosolau
- ymchwil a wneir ar hyn o bryd a noddir gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

Ar ôl y cyflwyniadau, trafododd grwpiau llai eu cynnwys ac, yn fwy penodol, agweddau ar yr angen dybryd i safoni sut y gwneir gwaith samplu a thyfu celloedd meithrin. Cytunwyd bod amrywiadau yn y protocolau a'r dulliau a ddefnyddir yn rhwystr i sut gellir dehongli a chymharu asesiadau risg. Roedd pawb a oedd yn bresennol yn credu fod angen ymchwil bellach mewn nifer o feysydd er mwyn gwella ansawdd y data gwyddonol a ddefnyddir mewn asesiadau risg bio-erosolau.

Croesawyd y gweithdy gan y cyfranogion i gyd fel cyfle i drafod ymchwil a datblygiadau cyfredol ynghylch bio-erosolau o gompostio gwastraff gwyrdd. Darparodd y gweithdy gyfle gwych i hyrwyddo gwaith a noddir gan Asiantaeth yr Amgylchedd ac amlygu pwysigrwydd a defnyddioldeb gweithio a ariannu cydweithredol yn y maes hwn.

Adroddiad Gwyddoniaeth: SC050009/110
Teitl: Gweithdy rhyngwladol ynghylch bio-erosolau o gompostio gwastraff gwyrdd

Rhif ISBN : 1844325989 2006
Côd Cynnyrch: SCHO0906BLLZ-E-P

Statws Mewnol: Rhyddhawyd i bob rhanbarth
Statws Allanol: Ar gael i'r cyhoedd

Rheolwr y Prosiect: Greg Jordinson

Ariannwyd y prosiect hwn gan ein Grŵp Gwyddoniaeth, sy'n darparu gwybodaeth, arfau a thechnegau gwyddonol i'n galluogi i warchod a rheoli'r amgylchedd mewn dull mor effeithiol ag y bo modd.

Mae copïau pellach o'r crynodeb hwn a'r adroddiad uchod ar gael oddi wrth ein Canolfan Cysylltu â Chwsmeriaid Genedlaethol drwy anfon neges e-bost i enquiries@environment-agency.gov.uk neu drwy alw 08708 506506.